Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Ebrill 17, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion.

Mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel yn ystod y cyfnod anodd ac anghyffredin hwn.

Ar gychwyn yr hanner tymor newydd, carwn eich hysbysu o'r isod:

Gosod gwaith/tasgau i ddisgyblion
Parheir gyda'r trefniant o osod gwaith i ddisgyblion drwy "Show My Homework". Fel nodwyd yn y llythyr blaenorol, yn unol â'r calendr Ysgol, bydd tasgau newydd yn cael eu gosod erbyn (20.4.20). Noder ei fod yn ddiwrnod HMS ar ddydd Llun 20.4.20 ac felly bydd yr amserlen gwaith ysgol yn weithredol o ddydd Mawrth 21.4.20, ac ni fydd tasgau yn cael eu gosod ar ddydd Llun.

Diwrnod Canlyniadau Graddau TGAU a Safon Uwch Haf 2020
Cadarnhaodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru Kirsty Williams, ddoe bod diwrnod canlyniadau 2020 i fyfyrwyr Safon UG a Safon Uwch, a myfyrwyr TGAU, yn aros ar eu dyddiadau gwreiddiol yng Nghymru. Mae hynny'n golygu y bydd Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn rhannu'r un diwrnodau canlyniadau, sef 13 Awst ar gyfer Safon UG a Safon Uwch a 20 Awst ar gyfer TGAU.

Am wybodaeth bellach, gweler y datganiad llawn isod gan Lywodraeth Cymru ar 16.4.2020.
https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-diwrnod-canlyniadau-cymru-2020

Trefniadau ar gyfer disgyblion blynyddoedd 11 a 13 ar gyfer yr hanner tymor hwn
Fel yr ydych yn ymwybodol, ni fydd arholiadau yn cael eu cynnal eleni ac fe fydd yr ysgol yn darparu gwybodaeth i'r byrddau arholi perthnasol er mwyn cyfrifo graddau disgyblion unigol. Nid oes disgwyl bellach i ddisgyblion blwyddyn 11 a blwyddyn 13 gwblhau na chyflwyno unrhyw waith sydd yn anorffenedig**.**

Ar gyfer yr hanner tymor hwn, byddwn yn parhau i osod tasgau drwy " Show my Homework" ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 a disgyblion blwyddyn 13, ond fe fydd newid i'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Ar gyfer disgyblion blwyddyn 11, gosodir tasgau darllen cefndirol pwnc penodol iddynt er mwyn paratoi ar gyfer eu cyrsiau UG a fydd yn cychwyn ym mlwyddyn 12 yn ogystal â chyflawni gwaith ymchwil perthnasol fydd yn ddechreuad da ar gyfer astudiaethau'r Chweched Dosbarth. Ar gyfer disgyblion blwyddyn 13, gosodir tasgau darllen perthnasol i'r disgyblion sydd yn mynd i'r Brifysgol. Darparir hefyd adnoddau sydd wedi eu paratoi ar gyfer pontio i Addysg Uwch neu fyd gwaith.

Os yw eich plentyn yn dychwelyd, neu yn ystyried dychwelyd, i'r Chweched Dosbarth ym mis Medi, mae croeso i chi gysylltu â Mr John at bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Yr ysgol yn cefnogi'r gymuned

Yn ystod y cyfnod o brinder offer gwarchod personol, mae'r ysgol wedi trosglwyddo ein stoc gyfan o ffedogau, menig, a sbectol diogelwch o adrannau perthnasol yr ysgol i'r Awdurdod Lleol er mwyn eu dosbarthu i weithwyr rheng-flaen. Yn yr un modd, mi fydd yr adran Dylunio a Thechnoleg, ynghyd ag adrannau D&T eraill y Sir yn cynhyrchu "visors" ar gyfer gweithwyr rheng-flaen. Carwn hefyd ddiolch i John Hopkins, Dan Morgan a Fiona Edwards, ein rheolwyr safle sydd wedi bod yn gweithio'n ddiflino dros yr wythnosau diwethaf yn helpu paratoi a thrawsffurfio'r ysgol yn un o dri chyfleuster ychwanegol yng Ngheredigion er mwyn ymateb i Covid 19. Rydym yn falch fel cymuned ysgol ein bod yn medru cefnogi ein cymuned ehangach ac estyn llaw o gymorth yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Cefnogaeth i ddisgyblion a rhieni

Carwn eich atgoffa, pe gyfyd unrhyw bryderon gennych chi neu'ch plentyn, anogaf i chi a hwy gysylltu gyda'r ysgol drwy e-bost ymholiadau ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk neu drwy e-byst yr arweinwyr cynnydd a lles sydd wedi eu nodi isod. Cofiwch ein bod yma i'ch cynorthwyo a'ch cefnogi chi a'ch teuluoedd yn ystod yr wythnosau nesaf.

Ebost Cymorth Lles i'r Disgyblion /	Bl 7 Gofal7@penweddig.ceredigion.sch.uk Bl 8 Gofal8@penweddig.ceredigion.sch.uk Bl 9 Gofal9@penweddig.ceredigion.sch.uk Bl 10 &11 Gofal10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk Bl 12 & 13 Gofal12a13@penweddig.cerdigion.sch.uk
Cyswllt Arweinyddion Cynnydd a Lles i rieni:	Arweinydd Cynnydd Bl 12 & 13 bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk Arweinydd Cynnydd Bl 10 & 11 bl10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk Arweinydd Cynnydd Bl 9 bl9@penweddig.ceredigion.sch.uk Arweinydd Cynnydd Bl 8 bl8@penweddig.ceredigion.sch.uk Arweinydd Cynnydd Bl 6 & 7 bl6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk

Byddwch yn derbyn gohebiaeth bellach gennyf bob dydd Gwener er mwyn eich hysbysu a'ch diweddaru o unrhyw newyddion a newidiadau i'r drefn. Mae croeso i chi hefyd f'e-bostio drwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Gofalwch am eich gilydd a chadwch yn ddiogel.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

April 17, 2020

Dear Parents, Guardians and Pupils

I hope that you and your families are keeping healthy and safe during this difficult and unfamiliar time.

At the beginning of a new half-term, I would like to draw your attention to the following:

Work/Task Setting for pupils
Arrangements will continue regarding setting work/tasks for pupils via "Show my Homework". As stated in the previous letter, new tasks will be set by the beginning of the new term (20.4.20), in accordance with the school calendar. Please note that an INSET day has been allocated for Monday, 20.4.20 and therefore the school timetable will be operational from Tuesday, 21.4.20 onwards and no work will be set for pupils on Monday.

GCSE and A level Results Day Summer 2020
Welsh Government Education Minister Kirsty Williams, confirmed yesterday that the 2020 Wales results day for AS and Alevel students, and for GCSE students, will be as originally scheduled. This means that Wales, Northern Ireland and England will share the results days of 13 August for AS and A Level and 20th August for GCSE.
For more information, please see statement issued by Welsh Government on 16.4.2020
https://gov.wales/written-statement-results-day-2020

Arrangements for year 11 and year 13 pupils for this half-term
As you are already aware, no formal examinations will be held this summer. The school will provide information to the relevant examination boards in order to calculate individual grades. Year 11 and Year 13 pupils are not expected to complete or present unfinished work.

For this half-term, we will continue to set tasks using "Show my Homework" for year 11 and year 13 pupils. There will however be a change in provision. For Year 11 pupils, subject-specific background reading tasks will be set to prepare pupils for their AS courses beginning in Year 12, as well as relevant research-based tasks that will stand them in good stead at the beginning of Year 12. For year 13 pupils, relevant reading tasks will be set for pupils going to University. We will also provide resource materials which will benefit them in their transition to Higher Education or the world of work.

If your child is returning, or considering returning, to the Sixth Form in September, please contact Mr John at bl12a13@penweddig.ceredigion.gov.uk if you require any further information.

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Supporting our community

During a time of personal protection equipment shortage, the school has transferred our entire stock of aprons, gloves and protective goggles from the relevant school departments to the Local Authority so that they can be distributed to key workers. The Design and Technology department will be co-operating with other D&T departments in the county to produce visors for key workers. I would also like to extend a big thank-you to John Hopkins, Dan Morgan and Fiona Edwards, our school site managers, who have been working tirelessly over the last three weeks, helping to prepare and transform the school as one of the three additional facilities in Ceredigion to respond to Covid 19. We are proud as a school community that we are able to support our wider community and provide help during this challenging time.

Support for parents and pupils

I would like to remind you that if you or your child have any concerns, I encourage you to contact the school via the ymholiadau e-mail ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk or via the Year Progress Leader's e-mail addresses that are listed below. Remember that we are here to help and support you during the forthcoming weeks.

Emails for pupil needing emotional support:	Yr 7 Gofal7@penweddig.ceredigion.sch.uk Yr 8 Gofal8@penweddig.ceredigion.sch.uk Yr 9 Gofal9@penweddig.ceredigion.sch.uk Yr 10 &11 Gofal10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk Yr 12 & 13 Gofal12a13@penweddig.cerdigion.sch.uk
Contact to Progress Leaders for parents:	Yr 12 & 13 Progress Leader bl12a13@penweddig.ceredigion.sch.uk Yr 10 & 11 Progress Leader bl10a11@penweddig.ceredigion.sch.uk Yr 9 Progress Leader bl9@penweddig.ceredigion.sch.uk Yr 8 Progress Leader bl8@penweddig.ceredigion.sch.uk Yr 6 & 7 Progress Leader bl6a7@penweddig.ceredigion.sch.uk

Every Friday, you will receive correspondence from me to inform you of the latest news and developments. You are also welcome to e-mail me via ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk.

Look after yourselves and keep safe.

Sincerely,

Rhian Morgan
Acting Headteacher